COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

**Bwrdd y Coleg, 25 Mehefin 2025 (10:30 – 14:50), Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd) |
| | Ann Beynon |
| | Nia Elias |
| | Rhys Evans |
| | John Hayes |
| | Meri Huws |
| | Yr Athro Anwen Jones |
| | Yr Athro Pedr ap Llwyd |
| | Angharad Roberts |
| | Llinos Roberts |
| **Sylwedyddion:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) |
| | Deio Owen (Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru) |
| | Rhian Huws Williams (Cadeirydd Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr) |
| | Gwenllïan Griffiths (Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu) |
| | Dr Dylan Phillips (Cyfarwyddwr Addysg Uwch ac Ysgrifennydd) |
| | Dr Dafydd Trystan (Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, Addysg Bellach a Chofrestrydd) |
| | Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant) |

| | |
|---|---|
| | Suzanne Lewis (Uwch Reolwr Gwasanaethau Corfforaethol) |
| | Lisa O'Connor (Uwch Reolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau dros dro) |
| | Gwenllian Owen (Uwch Reolwr Addysg Uwch) |
| | Rebecca Williams (Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu) |
| **Ymddiheuro:** | Yr Athro Enlli Thomas |

**Cofnodion Cyfarfod 25 Mehefin 2025**

### 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Croesawyd Lisa O'Connor i'w chyfarfod cyntaf fel Uwch Reolwr Addysg Bellach a Phrentisiaethau dros dro. | | |
| 1.3 | Nodwyd ymddiheuriad fel uchod. | | |

### 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| 2.2 | Nododd y Cadeirydd ddiddordeb yn Eitem 15 – Honorariwm y Cadeirydd a fyddai'n eitem caeëdig. | | |

## 3. Eitem 3 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar a nodwyd y diweddariadau yn yr adroddiad. | | |
| 3.2 | **Trefniadau adrodd i Lywodraeth Cymru**<br>Nodwyd yr adroddiad monitro diwedd blwyddyn 2024/25 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (Eitem 3i). | | |
| 3.3 | **Maniffesto**<br>Adroddwyd yn dilyn cytundeb ar gynnwys maniffesto'r Coleg yng nghyfarfod y Bwrdd ar 25 Mawrth 2025 bod dolen i'r fersiwn talfyredig yn yr adroddiad ac yn barod i'w rannu gyda phwyllgorau'r Bwrdd a rhanddeiliaid.<br>Mewn ymateb i gwestiwn adroddwyd bod pwyslais y trafodaethau gyda'r pleidiau'n amrywio yn dibynnu ar y plaid.<br>Yn ystod y drafodaeth nodwyd bod sgôr critigol yn y Gofrestr Risg ynghylch newidiadau yn yr amgylchedd allanol yn effeithio ar y Coleg. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd hefyd bod y Coleg wedi cael cyfle i fwydo mewn i faniffesto'r NTfW ac wedi bod yn rhan o'r lansiad ar 24 Mehefin 2025. | | |
| 3.4 | **Bil y Gymraeg ac Addysg**<br>Fel a adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf mae nifer o'r cynigion a gyflwynwyd gan y Coleg i Fil y Gymraeg ac Addysg wedi'u derbyn. Mae'r Bil wedi derbyn cydsyniad Brenhinol. Bydd y Coleg, Medr a swyddogion y Llywodraeth yn trafod Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. | | |
| 3.5 | **Medr**<br>Adroddwyd bod James Owen wedi'i benodi'n Prif Weithredwr newydd Medr. Cydnabuwyd cyfraniad Simon Pirotte, y Prif Weithredwr presennol, yn noson Wobrau'r Coleg ar 19 Mehefin 2025.<br>Adroddwyd y bydd y Coleg yn cyflwyno cyngor pellach o dan y dynodiad o ran Cynllun Cenedlaethol Medr yn yr hydref a threfniadau cyllido yn y tymor canolig.<br>Adroddwyd hefyd bod Medr yn ymgynghori ar egwyddorion rheoleiddio a'r Gymraeg ac mae'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Coleg wedi paratoi cyngor i'w rannu gyda'r Bwrdd yn y dyddiau nesaf.<br>Mae'r Coleg yn cydweithio gyda Medr ar astudiaeth o sefyllfa pynciau penodol yn y sector yn wyneb yr argyfwng presennol ar gais y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch.<br>Yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at aelodau gweithgor Medr sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | Cyngor egwyddorion rheoleiddio i'r Bwrdd | Haf 2025 |
| 3.6 | **Cymwysterau Cymru**<br>Adroddwyd bod y bartneriaeth strategol rhwng y Coleg a Chymwysterau Cymru wedi ymestyn am flwyddyn gyda'r bwriad o adolygu yn 2026. | | |
| 3.7 | **Yr Athrofa**<br>Rhoddodd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, ddiweddariad ar sefydlu'r Athrofa. Adroddodd y bydd rôl y Cadeirydd yn cael ei hysbysebu yn yr haf cyn i'r Athrofa ddod yn llawn weithredol ym mis Awst 2027. | | |
| 3.8 | **Fforwm Ysgolion**<br>Adroddwyd bod y Fforwm Ysgolion yn adeiladu perthynas gyda CYDAG ac yn y sector. Mae nifer o | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | brosiectau ar waith gan gynnwys hyrwyddo adnoddau'r Porth. | | |
| 3.9 | **Eisteddfod Genedlaethol**<br>Adroddwyd ar amserlen digwyddiadau'r Coleg yn yr Eisteddfod gan gynnwys dathlu ugain mlwyddiant y cynllun ysgoloriaethau. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymadawodd Gwenllian Griffiths y cyfarfod* | | |
| 3.10 | **Addysg Uwch**<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd ar ymatebion pob sefydliad addysg uwch yn dilyn gohebiaeth yn holi am eu cynlluniau i ddiogelu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgil cynlluniau ad-drefnu presennol. Nodwyd nad oedd consyrn mewn rhai sefydliadau ond y gallai cynllunio sefydliadol mewn rhai prifysgolion unigol gael effaith andwyol ar ddarpariaeth cenedlaethol.<br>Adroddwyd yn benodol ar sefyllfa gyfredol Prifysgol Bangor. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru, drwy'r Coleg, wedi buddsoddi'n sylweddol mewn unigolion a chynyddu capasiti'r darpariaeth ond bod y cynllun diswyddo gwirfoddol ym Mhrifysgol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bangor yn golygu lleihad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd bod y Coleg wedi darparu dogfen iddynt yn mynegi safbwynt a chanfyddiadau'r Coleg sy'n cynnwys y posibilrwydd o golli hanner o grantiau'r Coleg iddynt o fis Medi 2025. Yn y ddogfen amlinellwyd gofynion tymor hir y Coleg i liniaru'r sefyllfa ac ail-adeiladu'r ddarpariaeth. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Rhian Huws Williams a Rebecca Williams yn y cyfarfod.* | | |
| 3.11 | Amlinellodd y Prif Weithredwr batrwm cyllido'r Coleg a fabwysiadwyd pan y'u sefydlwyd i ymrwymo i fuddsoddi mewn unigolion a rhoi gyrfa iddynt.<br>Mewn ymateb i gwestiwn adroddwyd bod pob sefydliad yng Nghymru wedi gwarchod swyddi cyfrwng Cymraeg o'r cynlluniau diswyddo gwirfoddol ond nad oedd hynny'n bosib ym Mhrifysgol Mangor.<br>Bydd angen cynllun staffio newydd er mwyn gallu ail-adeiladu capasiti ym Mhrifysgol Bangor. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd nad oedd yn ymarferol bosib symud buddsoddiad i sefydliad arall gan roedd hynny'n dibynnu ar achosion penodol unigolion.<br>Trafodwyd y difrod posib a'r goblygiadau i'r Coleg.<br>Argymhellwyd dylanwadu ar Medr o ran strategaeth cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg cenedlaethol. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ail-ymunodd Gwenllian Griffiths yn y cyfarfod* | | |
| 3.12 | Nododd Alan Jones, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, bod Mark Drakeford wedi cyfleu wrth Medr bod angen cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel cenedlaethol. | | |

**4. Eitem 4 – Cyflwyniad ar brosiectau ymestyn cynulleidfaoedd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Rhoddwyd cyflwyniad ar brosiectau ymestyn cynulleidfaoedd gan yr Uwch Reolwr Addysg Uwch a'r Uwch Reolwr Sgiliau Iaith a Chynllunio Gweithlu. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.2 | Adroddwyd ar y prosiectau:<br>• pecyn technegau newid ymddygiad<br>• cofnodi a mesur cynnydd sgiliau iaith (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)<br>• mapio a meithrin sgiliau iaith (Prifysgol Aberystwyth)<br>• ymchwil datblygu dulliau addysgu (Prifysgol Bangor a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd)<br>• adnoddau yn seiliedig ar efelychu (Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd; a Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth)<br>• cofrestru di-ofyn (Prifysgol Abertawe – Cyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd) | Rhannu pecyn newid ymddygiad gyda'r aelodau | Haf 2025 |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Yusuf Ibrahim ac Osian Rhys i gyfieithu yn y cyfarfod* | | |
| 4.3 | Trafodwyd bwysigrwydd y cynlluniau peilot er mwyn dylanwadu ar allbynnau cenedlaethol. | | |
| | *Ar y pwynt hwn ymunodd Deio Owen yn y cyfarfod* | | |

## 5. Eitem 5 – Diweddariad Addysg Bellach a Phrentisiaethau

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Croesawyd Yusuf Ibrahim i'r cyfarfod. | | |
| 5.2 | Cyflwynwyd papur ar Addysg Bellach a Phrentisiaethau gan y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol ac Addysg Bellach a Yusuf Ibrahim, Is-Gadeirydd y Bwrdd Strategolol-16. | | |
| 5.3 | Trafodwyd yr egwyddorion o godi uchelgais mewn perthynas â'r gwaith yn y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau a'r camau nesaf i osod disgwyliadau mewn cydweithrediad â chyrff eraill. | | |
| 5.4 | Argymhellwyd<br>• cydweithio â Medr a'r sector trydyddol i fonitro, cefnogi a chynllunio gyda'r dysgwr yng nghanol y penderfyniadau<br>• edrych ar sefyllfaoedd unigol y colegau<br>• bod y Bwrdd Strategol ôl-16 yn trafod ehangu darpariaeth | | |
| 5.5 | Derbyniwyd yr egwyddorion i gynyddu profiad dysgwyr o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chymeradwywyd yr ymatebion i'r argymhellion yn adolygiad Estyn. | | |
| | *Diolchwyd Yusuf Ibrahim wrth iddo ymadael a diolchwyd Osian Rhys hefyd am gyfieithu ar y pryd.* | | |

**6. Eitem 6 – Cofnodion 26 Mawrth 2025**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Derbyniwyd y cofnodion a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2025 gydag ychwanegiad i bwynt 3.4 bod swyddogion y Llywodraeth hefyd wedi bod yn rhan o gyfarfod ar 12 Mawrth 2025. | Diweddaru'r cofnod | Ar unwaith |

**7. Eitem 7 – Materion yn codi**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Eitem 3.9 – Cyflwyniad ar y pecyn technegau newid ymddygiad yn Eitem 4 - ymestyn cynulleidfaoedd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.2 | Eitem 4.7 – Adroddwyd bod y swyddogion wedi cyfarfod y Gweinidog o ran cynllun Seren fel a nodwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr. | | |
| 7.3 | Eitem 7.3 – Adroddwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu'n ffurfiol at Ymddiriedolaeth Salesbury wedi i'r mater gael ei gwblhau. | | |

**8. Materion y Cadeirydd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Adroddodd y Cadeirydd bod y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymgysylltu ac yntau wedi rhoi cyflwyniad ar waith a datblygiad y Coleg, gan gynnwys y dynodiad i gynghori Medr, yn ogystal â briff llawn ar ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol cyfredol perthnasol i'r Gymraeg, i Fwrdd Medr ar 22 Mai 2025. | | |
| 8.2 | Adroddodd ar y Noson Wobrau a gynhaliwyd yn yr Egin ar 19 Mehefin 2025. | | |
| 8.3 | Adroddodd ei fod wedi mynychu cyfarfodydd is-bwyllgorau'r Bwrdd yn ystod y tymor. | | |

## 9. Eitem 9 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion (Eitem 9i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 7 Mai 2025.<br>Adroddodd yr Ysgrifennydd ar:<br>• gyfranogiad aelodau yn sgil diffyg cworwm cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion cyffredinol ar 5 Mawrth 2025<br>• gwrthdaro buddiannau<br>• ddiwygiadau i gryfhau’r risg yn ymwneud â llywodraethiant yn y gofrestr risg strategol<br>• y penodwyd Carys Morgans fel aelod allanol o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol<br>• y penodwyd Mair Gwynant fel aelod allanol o’r Pwyllgor Archwilio a Risg<br>• gynllunio i recriwtio 3 aelod newydd i’r Bwrdd yn ystod 2026<br>• adborth gadarnhaol i’r rhaglen hyfforddiant a diweddariadau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Diolchwyd i aelodau'r Pwyllgor gan gynnwys y Cadeirydd am eu gwaith. | | |
| 9.2 | **Adroddiad holiadur gwerthuso'r Bwrdd (Eitem 9ii)**<br>Cyflwynwyd adroddiad holiadur gwerthuso'r Bwrdd gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd ar:<br>• ganlyniadau'r holiadur<br>• brif themâu'r ymatebion<br>Adroddodd y Cadeirydd y byddai'n cynnal sgyrsiau unigol gyda'r aelodau yn ystod tymor yr haf.<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |
| 9.3 | **Adroddiad blynyddol (Eitem 9iii)**<br>Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan Rhian Huws Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.<br>Adroddwyd ar:<br>• gyfleoedd i benodi i'r Bwrdd<br>• bwysigrwydd sgyrsiau unigol rhwng y Cadeirydd a'r aelodau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • sicrwydd sylweddol yr Archwilwyr Mewnol ar brosesau llywodraethiant y Coleg<br>• y bwriad i gynnal adolygiad effeithiolrwydd llywodraethiant yn 2027<br>• gynllun peilot er mwyn cynnig profiad ar bwyllgorau'r Coleg i arweinwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig<br>Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol. | | |
| 9.4 | Yn sgil gohebiaeth gan yr Athro Pedr ap Llwyd fe'i gwahoddwyd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Medi 2025 i gyflwyno papur ar amrywiaeth a llywodraethiant. | Gwahoddiad i'r Athro Pedr ap Llwyd i'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant | 10 Medi 2025 |

**10. Eitem 10 – Pwyllgor Archwilio a Risg**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion (Eitem 10i)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 21 Mai 2025. | | |
| 10.2 | **Y Gofrestr Risg (Eitem 10ii)**<br>Nodwyd y Gofrestr Risg Strategol, er gwybodaeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.3 | **Adroddiad blynyddol (Eitem 10iii)**<br>Adroddodd Rhys Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg:<br>• ar gyfraniadau William Callaway, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor a Peter Curran, cyn-aelod allanol<br>• ar werth ychwanegol yr archwiliadau mewnol<br>• ar berthynas adeiladol rhwng yr Archwilwyr Mewnol, swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor<br>• ar flaenoriaethau 2025/26<br>• ar y cynnydd i liniaru risg ym maes diogelwch seibr a'r achrediad *Cyber Essentials+*<br>Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol. | | |

## 11. Eitem 11 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cofnodion (Eitem 11)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2025. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddodd Pedr ap Llwyd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol:<br>• ar bresenoldeb llawn yn y cyfarfod<br>• bod y swyddogion i'w cymeradwyo ar reolaeth ariannol y Coleg<br>• y bydd angen edrych ar reolwyr buddsoddi'r Coleg ym mis Medi 2026<br>• ar ddiweddariadau Marchnata gan gynnwys yr ymweliadau ysgolion a data sy'n arddangos cynnydd yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol<br>• ar y strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth<br>• arferion da adnoddau dynol<br>• amserlen achrediad *Cyber Essentails+*<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

**12. Eitem 12 – Bwrdd Academaidd**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | **Cofnodion (Eitem 12)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 14 Mai 2025. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddodd yr Ysgrifennydd yn sgil absenoldeb y Cadeirydd Bwrdd Academaidd:<br>• gan nad oedd yr Athro Enlli Thomas yn bresennol bod Dr Aled Eirug wedi cadeirio'r cyfarfod<br>• bod y myfyrwyr wedi rhoi diweddariad yn pryderi am sgil-effaith y toriadau presennol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwasanaethau proffesiynol y sefydliadau<br>• y cafwyd diweddariadau gan gadeiryddion y canghennau<br>• y rhoddwyd cyflwyniad ar y pecyn technegau newid ymddygiad<br>• y rhoddwyd cyflwyniadau gan gadeiryddion 3 panel pwnc | | |
| 12.2 | Yn ystod y drafodaeth datganodd Meri Huws, fel Cadeirydd Prifysgol Aberystwyth, bod cyflwyniad y Prif Weithredwr i Gadeiryddion y Prifysgolion wedi codi ymwybyddiaeth o safbwynt y Gymraeg yng nghyd-destun sefyllfa bresennol y sector addysg uwch. | | |

### 13. Eitem 13 – Bwrdd Strategol Ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | **Cofnodion (Eitem 13)**<br>Nodwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol Ôl-16 a gynhaliwyd ar 20 Mai 2025.<br>Adroddodd Meri Huws, Cadeirydd y Bwrdd Strategol Ôl-16:<br>• ar y drafodaeth rhagarweiniol ar gyfer y papur Addysg Bellach a Phrentisiaethau a gyflwynwyd yn Eitem 5<br>• ar ddiweddariad ynghylch Llais y Dysgwr<br>• ar gyflwyniad Cymwysterau Cymru<br>• ar gronfa ddata aseswyr Cymraeg eu hiaith | | |

### 14. Eitem 14 – Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | **Cyfarfodydd 2025/26 (Eitem 16)**<br>Nodwyd dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:<br>• 19 Tachwedd 2025, Bangor | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • 25 Mawrth 2026, Caerfyrddin (cynhelir y Cynulliad Blynyddol ar 24 Mawrth)<br>• 24 Mehefin 2026, Caerdydd | | |